

'Banking benefits

CAB evidence on payment of benefits into bank accounts'

Er mwyn mynd i'r afael ag allgau ariannol yn llwyddiannus mae sicrhau mynediad at gyfrifon banc yn hollbwysig. Mae tanwydd, yswiriant a chredyd ar gael yn rhatach i'r rheini sydd â chyfrif banc. Gall cyfrifon banc sylfaenol hefyd helpu i atal pobl rhag mynd i ormod o ddyled gan nad ydynt yn cynnig gorddrafft.

Mae talu budd-daliadau'r wladwriaeth yn syth i gyfrifon banc wedi golygu bod mwy o bobl wedi agor cyfrif banc. Er hynny, mae tystiolaeth CAB yn dangos na all pawb agor cyfrif banc. Mae'r prosesau ar gyfer agor a chynnal cyfrifon banc, gan gynnwys cyfrifon sylfaenol, yn parhau i allgau pobl yn ariannol. Gallai hyn beryglu'r gwaith o gyflwyno'r diwygiadau i'r system Budd-daliadau Tai.

Y Cefndir

Mae oddeutu un cartref o bob 12 yn y DU heb gyfrif banc o unrhyw fath. Cafodd y diwydiant bancio ei annog i ddatblygu cyfrifon banc sylfaenol er mwyn cefnogi polisi'r llywodraeth o dalu budd-daliadau'n syth i gyfrifon. Ers mis Ebrill 2003, mae dros 1.5 miliwn o gyfrifon sylfaenol wedi cael eu hagor, ac mae 96 y cant o hawlwyrr bellach yn derbyn eu budd-daliadau drwy daliad i gyfrif o ryw fath neu'i gilydd.

Mae diwygiadau i'r system budd-daliadau tai, sydd yn cael eu treialu ar hyn o bryd mewn 18 ardal awdurdod lleol, ar gyfer cyflwyno lwfans tai lleol hefyd yn dibynnu ar fynediad at gyfrif banc, gan y bydd Budd-dal Tai fel rheol yn cael ei dalu i gyfrif banc y sawl sy'n ei hawlio.

Mae tystiolaeth CAB yn dangos diffyg cydnawsedd rhwng polisi'r llywodraeth ar dalu budd-daliadau'n syth i gyfrifon banc a rhai o arferion y diwydiant

bancio. O ganlyniad i hynny nid oes gan lawer o'r bobl fwyaf ddiymgeledd fynediad at gyfrif banc, neu cânt eu cosbi'n annheg pan fyddant yn agor cyfrif.

Y prif ganfyddiadau

Bydd cleientiaid CAB yn wynebu problemau gyda dau brif beth wrth dalu budd-daliadau i gyfrifon banc:

1. Agor cyfrif

Mae cleientiaid CAB yn wynebu problemau difrifol iawn wrth geisio agor cyfrifon banc gan nad oes ganddynt bob amser dystiolaeth dderbyniol o bwy ydyn nhw a'u cyfeiriad. Rhaid i fanciau wirio'r rhain er mwyn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gwyngalchu arian.

Er bod y llywodraeth wedi cyhoeddi arweiniad ynghylch sut y gall pobl sydd wedi'u hallgáu'n ariannol brofi pwy ydyn nhw a'u cyfeiriad, gwêl cleientiaid CAB yn aml nad yw staff banciau'n

fodlon dilyn yr arweiniad hwnnw. Dengys ein tystiolaeth mai'r bobl sy'n wynebu hyn gan amlaf yw carcharorion a ryddhawyd, pobl nad ydynt yn ddinasyddion y DU, pobl sy'n derbyn budd-daliadau a phobl ddigartref.

Mae anawsterau eraill yn cynnwys:

- Prin yw'r banciau sy'n hyrwyddo eu cyfrif sylfaenol, sy'n achosi problemau penodol i'r rheini sydd wedi'u hallgáu fwyaf gan nad oes ganddynt bob amser ddigon o hyder i holi am wybodaeth, neu efallai nad ydynt hyd yn oed yn gwybod bod cyfrifon banc sylfaenol yn bodoli.
- Yn hytrach na chynnig cyfrif banc sylfaenol bydd rhai aelodau o staff banciau'n gwerthu cyfrifon a gwasanaethau nad ydynt o reidrwydd yn addas ar gyfer anghenion y cwsmeriaid. Mae hyn yn mynd yn groes i'r Cod Bancio, sy'n gosod safonau arferion bancio da, ac sydd bellach yn datgan y dylid cynnig cyfrif sylfaenol i rywun sy'n gofyn am un.
- Er nad yw hi'n bosibl cael gorddrafft gyda chyfrif sylfaenol, dim ond ychydig o fanciau sy'n fodlon agor cyfrif i bobl sydd mewn dyled. O ganlyniad i hynny ni allant reoli eu hincwm nac ad-dalu credydwy.
- Gwêl pobl fod cyfnodau hir o oedi wrth agor cyfrifon sylfaenol gyda rhai banciau, gan fod y prosesau perthnasol yn cael eu cyflawni'n ganolog yn hytrach nag mewn canghennau lleol. Gall oedi o'r fath olygu bod pobl heb incwm am hyd at sawl wythnos.
- Ambell waith bydd banciau'n uwchraddio cyfrifon sylfaenol i gyfrifon cyfredol llawn gyda gorddrafftiau pan nad yw hyn o reidrwydd er budd gorau'r unigolyn dan sylw.

2. Defnyddio cyfrif

Awgryma tystiolaeth CAB nad yw mynediad at fancio'n ddigon i ddod â phobl at y brif ffrwd ariannol; mae cynllun a nodweddion cyfrifon sylfaenol a chyfredol yn bwysig hefyd.

- Caiff banciau dynnu arian allan o gyfrifon

Achos 1

Dywedodd CAB yn Ne Orllewin Cymru fod menyw a fu â chyfrif cynilo gyda'i banc ers 32 mlynedd wedi synnu pan ddywedwyd wrthi fod yn rhaid iddi brofi pwy oedd hi a'i chyfeiriad er mwyn agor cyfrif newydd gyda'r un banc. Ni fyddai'r banc yn derbyn tystysgrifau priodas a geni'r cleient fel prawf o bwy oedd hi, ac nid oedd ganddi basport, cardiau credyd na thrwydded yrru. Serch hynny, awgrymodd y banc ei bod yn gwneud cais am gerdyn credyd yn lle hynny, er nad oedd gan y cleient ddiddordeb mewn benthyc arian.

Achos 2

Dywedodd CAB yn Swydd Efrog fod cleient wedi gwneud cais i agor cyfrif banc ym mis Tachwedd 2004 ond nad oedd y cyfrif wedi'i agor tan fis Chwefror 2005. Mae'r oedi hwn wedi achosi anhwylystod mawr, gan fod y cleient wedi gorfod teithio i 'siop un stop' canol dinas y cyngor er mwyn cyfnewid ei sic Budd-dal Tai am arian.

Achos 3

Dywedodd CAB yn Swydd Amwythig eu bod wedi cynghori cleient i agor cyfrif banc sylfaenol gyda'r unig fanc yn ei phentref. Serch hynny, gwrthodwyd y cleient gan nad oedd ganddi basport na thrwydded yrru i brofi pwy oedd hi.

sylfaenol a chyfredol i dalu dyledion eraill i'r banc heb edrych ar amgylchiadau'r cwsmer yn gyntaf. Hawl adfer costau yw hyn, ac ni chyfyngir ar faint y caiff y banc ei gymryd. Mae goblygiadau mawr yn perthyn i'r arfer hwn, yn enwedig pan fydd Budd-dal Tai'n cael ei dalu i gyfrif, oherwydd y gallai arwain at ôl-ddyledion rhent neu hyd yn oed droi rhywun allan o'i gartref.

- Gall y costau a godir gan fanciau am eitemau fel debyd uniongyrchol sydd wedi methu hefyd arwain at galedi sylweddol. Mae'r rhan fwyaf o fanciau hyd yn oed yn codi ar gyfrifon sylfaenol, rhwng £15 a £39 anferthol, os bydd debyd uniongyrchol yn methu. Gallai cost o £39 am ddebyd uniongyrchol sydd wedi methu, olygu bod gan rywun sy'n derbyn lwfans ceisio gwaith lai nag £20 yr wythnos ar ôl.
- Mae rhai banciau'n darparu gwasanaeth salach i'r rheini sydd â chyfrif sylfaenol, gan gymryd hyd at 10 diwrnod i glirio siec drwy rai cyfrifon banc sylfaenol. Mae banciau eraill yn rhwystru'r rheini sydd â chyfrif sylfaenol rhag codi arian dros gownteri canghennau banc.

Argymhellion

Dylai pob banc adolygu eu cyfrifon banc sylfaenol drwy eu cymharu â'r egwyddorion canlynol:

- peidio â defnyddio sgôr credyd
- dylid agor cyfrifon yn y fan a'r lle, ar yr amod bod gan y cwsmer dystiolaeth dderbyniol o bwy ydyn nhw
- ni ddylai banciau arfer eu hawl i adfer costau o gyfrifon banc sylfaenol
- dylid gosod y costau a godir am ddebyd uniongyrchol ac archebion sefydlog sydd wedi methu ar lefel a bennir gan Dasglu Cynhwysiant Ariannol y llywodraeth
- darparu clustogfa gorddrafft o £10
- dylid darparu mynediad at gyfrifon dros gownteri swyddfa'r post, peiriannau twll-yn-y-wal a chownteri canghennau banciau
- dylai'r amser a gymerir i glirio taliadau siec i gyfrifon fod yr un fath â'r hyn a geir ar gyfer cyfrifon cyfredol y banc.

Dylai'r Cod Bancio fynnu bod banciau yn:

- arddangos gwybodaeth am gyfrifon banc

Achos 4

Dywedodd CAB yng Nglannau Humber fod rhiant sengl a oedd yn disgwyl babi arall wedi synnu pan ddysgodd fod £400 o'i grant mamolaeth cronfa gymdeithasol wedi'i drosglwyddo o'i chyfrif banc i dalu am ei dyledion eraill gan adael oddeutu £30 ar gyfer costau byw. Dywedodd y banc wrthi er eu bod wedi derbyn ei chynnig i ad-dalu'r ddyled, y byddent yn edrych ar ei chyfrif yn rheolaidd ac yn cymryd unrhyw arian a oedd ynddo. O ganlyniad i hynny ni allai'r cleient brynu unrhyw beth i'w phlentyn nad oedd wedi'i eni eto.

Achos 5

Dywedodd CAB yng Ngorllewin Canoldir Lloegr y codwyd dros £100 ar gleient am ffioedd debyd uniongyrchol heb eu talu oherwydd bod y debyd uniongyrchol yn mynd o'i gyfrif cyn i'w hawliad credyd treth gael ei dalu i mewn.

sylfaenol mewn canghennau banc

- dweud wrth gwsmeriaid y gwrthodwyd agor cyfrif ar eu cyfer pam y cawsant eu gwrthod, a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud er mwyn datrys y sefyllfa
- agor cyfrif banc sylfaenol pan ddarperir tystiolaeth adnabod dderbyniol, a'i sefydlu cyn pen 10 diwrnod gwaith fan bellach
- stopio arfer eu hawl i adfer costau dyledion eraill i'r banc o gyfrifon sylfaenol
- dilyn arweiniad ynghylch sut y dylid uwchraddio cyfrifon sylfaenol, a'r dulliau diogelu y dylid eu rhoi ar waith.

Yn ogystal â hynny, rydym hefyd yn argymhell:

- Cynhyrchu un rhestr o ddogfennau adnabod derbyniol a phrawf derbyniol o gyfeiriad, gan ddefnyddio arfer gorau sydd eisoes i'w weld. Rhaid i hyn gynnwys llythyrau hawl i gael Budd-dal Tai, dogfennau teithio swyddogol y Swyddfa Gartref a thrwyddedau preswyllo. Dylai holl staff y gangen gael gwybod am y rhestr hon.
- Dylai pawb sydd â chyfrif cyfredol allu codi arian dros y cownter mewn Swyddfeydd Post.
- Dylai'r Swyddfa Masnachu Teg ymchwilio i lefel y costau a godir am ddebyd uniongyrchol sy'n methu ar gyfrifon banc sylfaenol er mwyn sicrhau nad yw'r costau'n anghymesur ond eu bod yn adlewyrchu'r costau a geir gan y banciau.
- Ni ddylid cyflwyno'r diwygiadau i'r system Budd-daliadau Tai yn genedlaethol cyn datrys yr anawsterau a geir wrth agor a defnyddio cyfrifon banc ar gyfer talu lwfans tai lleol.
- Dylai'r Tasglu Cynhwysiant Ariannol gomisiynu adroddiad i amlinellu'r achos busnes i fanciau fynd ati'n weithredol i gynnig cyfrifon banc i bobl sy'n derbyn incwm isel.

Mae'r adroddiad llawn, '**Banking benefits**', ar gael am £6.00 (gan gynnwys postio). I archebu eich copi, anfonwch eich enw a'ch cyfeiriad a siec yn daladwy i Cyngor Ar Bopeth, yn Cyngor Ar Bopeth, Myddelton House, 115-123 Pentonville Road, Llundain N1 9LZ.

Cyhoeddwyd gan Cyngor Ar Bopeth
115-123 Pentonville Road, Llundain N1 9LZ
Ffôn: 020 7833 2181 Ffacs: 020 7833 4371
www.citizensadvice.org.uk

Cyngor Ar Bopeth yw enw gweithredu Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor Ar Bopeth Rhif cofrestru'r elusen 279057

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y daflen hon yn gywir ar y dyddiad a ddangosir isod, ond ni ddylid ei chymryd fel datganiad llawn o'r gyfraith.

Hawlfraint Ionawr 2006 Cyngor Ar Bopeth.